Nicarbazin (Maxiban*):

Sut i leihau gweddillion nicarbazin mewn ieir

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Mae lefelau gweddillion Nicarbazin mewn ieir yn dal i fod yn broblem. Mae lefelau uchel o weddillion yn arwydd o arferion rheoli gwael wrth ymdrin â biniau a phadelli bwyd ar y fferm. Bydd Arolygiaeth Meddyginiaethau Anifeiliaid y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn ymchwilio i'r holl ffermydd sydd â heidiau sy'n cynnwys lefelau uchel o weddillion nicarbazin. Peidiwch â gadael i hyn ddigwydd i chi. Cymerwch ofal wrth reoli'r biniau bwyd er mwyn osgoi unrhyw weddillion.

Mae nicarbazin yn gynhwysyn gweithredol mewn Maxiban. Drwy ddilyn arferion da ar eich fferm, byddwch yn helpu i sicrhau bod Maxiban, sef un o'r meddyginiaethau gorau i atal a rheoli cocsidiosis, yn dal i fod ar gael i bob ffermwr dofednod cyfrifol.

Mae gweddillion nicarbazin yn crynhoi oherwydd problemau rheoli bwydydd anifeiliaid – boed mewn biniau neu badelli bwyd, sy'n golygu bod ieir yn bwyta bwyd sy'n cynnwys nicarbazin yn rhy agos at yr amser lladd.

Beth allwch chi ei wneud i osgoi gweddillion?

Dylai rheolwyr, perchenogion a gweithwyr fferm sy'n rheoli bwydydd anifeiliaid ar y fferm ddilyn y canllawiau hyn:

- Archebu a defnyddio dim mwy na'r hyn sydd ei angen o fwyd anifeiliaid sy'n cynnwys nicarbazin.
- Gwagio'r bin bwyd ar ddiwedd y cyfnod tyfu/pesgi, os yw hynny'n ymarferol.
- O leiaf bum niwrnod cyn mynd â'r ieir i'w lladd, gofalu nad yw'r biniau bwyd yn cynnwys bwydydd â nicarbazin. Gwagio'r bin yn llwyr wrth newid i fwydydd nad ydynt yn cynnwys nicarbazin. Os nad yw'r biniau'n cael eu gwagio, mae mwy o berygl y bydd gweddillion.
- Peidio â rhoi bwydydd sy'n weddill o gnydau blaenorol neu o fferm arall i adar bum niwrnod cyn iddynt gael eu lladd.
- Cofrestru am le ar un o sesiynau hyfforddi Elanco ar leihau ac osgoi gweddillion drwy e-bostio Tîm Cymorth Dofednod Elanco: eps@lilly.com.

Rhagor o gyngor

Darllenwch y canllawiau defnyddiol ar ddefnyddio nicarbazin yn Atodiad 2 adroddiad ar y cyd gan y Llywodraeth a'r diwydiant, 'Reducing the incidence and levels of nicarbazin residues in British chicken', sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: food.gov.uk/multimedia/pdfs/nicarbazin.pdf.

Mae cyngor hefyd ar gael gan Gyngor Dofednod Prydain ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr:

Cyngor Dofednod Prydain
www.poultry.uk.com
ffôn: 020 7202 4760
e-bost: bpc@poultry.uk.com

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
NFU Callfirst: 0870 845 8458

bpc british poultry council

NFU

VETERINARY RESIDUES COMMITTEE VRC

* Ychwanegyn bwyd cocsidiostat yw Maxiban sy'n cynnwys yr un faint o nicarbazin a narasin. Mae'n cael ei gynhyrchu gan Elanco, a dyma'r unig fath o nicarbazin sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio yn yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.

FSA/1320/0209